**LC1509**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r triniaethau nad ydynt yn dramgwyddau yn ôl adran 5(1) a 5(2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae’r tramgwyddau yn cynnwys rhoi triniaeth waharddedig, peri rhoi triniaeth waharddedig neu ganiatáu i berson arall roi triniaeth waharddedig.

### Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i graffu ar fersiwn gynharach o’r Rheoliadau drafft. O ganlyniad, ystyriwyd pwyntiau adrodd posibl yn y drafft presennol ac nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

O gofio bod y pwerau galluogi a enwir yn y Rheoliadau yn dod i rym ar yr adeg a bennir yng Ngorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007, bydd yn hanfodol sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, a’u bod yn cael eu nodi felly, ar ôl y Gorchymyn Cychwyn, os nad yw cwestiynau mewn perthynas â phwerau yn mynd i godi, yn arbennig gan fod y Rheoliadau hyn yn rhoi amddiffyniad yn erbyn tramgwyddau a grëwyd gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Mawrth 2007**